

RHINOGAU

Y bwlch sy'n gysylltiedig fwyaf â'r ardal bryniau hon yw'r adwy amlwg Bwlch Drws Ardudwy, gellir ei weld o sawl ongl ac mae'n dominyddu'r dirwedd gyfan. Ardudwy oedd enw'r cwmwd ac er bod bylchau pwysig eraill, ac yn haws, o'r Dwyrain i'r Gorllewin, dyma'r un y mae pobl yn ei gofio.

Bwlch Coch SH 749157

Nid oes enw ar y mapiau heddiw, ond mae'r enw i'w weld fel enw fferm Bwlch Coch Isaf. Bwlch ar lwybr pwysig ar un adeg, yn dod o Ddolgellau i'r Gorllewin. Mae'n cael ei nodi ar fap John Evans o 1795 o Ogledd Cymru.

Bwlch Cwmmaria SH 623186

Breuan yw'r hen enw ar y cwm; naill ai, *breuan* 'felin law, maen troi' neu *breuan* 'cigfran'. Gallai'r naill neu'r llall fod yn bosibl oherwydd bo'r adar i'w gweld ar hyd a lled Eryri, hefyd, defnyddiwyd creigiau graean yr ardal ar gyfer melinau ar un adeg. Bwlch Cwm-breuan 1837 AO.

Bwlch Drws Ardudwy SH 665282

Dyma'r *drws* 'adwy' sy'n rhoi mynediad drwy'r mynyddoedd i Ardudwy. Mae y ddau *rhiniog* 'postyn drws' ar y naill ochr neu'r llall yn ffurfio'r drws.

Bwlch y Llan SH 670177

Mae'r hen lwybr yn mynd o gwmpas y bryniau tuag at y *llan* 'eglwys' yn Llanaber.

Bwlch Du SH 673359

Y *du* 'tywyll, du'; fodd bynnag, gellid defnyddio'r gair *du* yn ffigurol i ddisgrifio ymdeimlad o *du* 'anifir' neu 'anhawster'.

Bwlch Gwilym SH 658329

Yr enw personol Gwilym; enw sy'n gysylltiedig a'r Llydaweg *Guilherm*, Ffrangeg *Guillaume*.

Bwlch Rhiwgyr SH 627200

Mae'r enw heddiw yn rhoi *rhiw* 'llechwedd' + *gyr* 'gyrru' (anifeiliaid); tra bo'r Cambrian Register 1796 yn rhoi yr enw fel Bwlch y Rhiwgur a'i ystyr/esboniad fel 'the pass of the fatiging ascent' [oherwydd *gur* 'poen, gofid?'], a dyma'r ffurf sydd ar fap 1838 yr AO.

Bwlch y Tyddiad SH 657300

Y tebygrwydd yw mai camsillafiad y gair *tudd* + 'caddyg, mwrllech' + *-iad* sydd i'w weld yma. Yn hytrach na'r ffurf *tyddia*, sef amrywiad y gair *oetyddia* 'gofyn i rieni merch am ganiatâd i'w phriodi'. Oherwydd agosrwydd y bwlch i Lyn Morwynion, *morwyn* 'merch ifanc (ddibriod)'. Bwlch Tyddiad sydd ar fapiau'r AO i gyd.